# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 2**

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

*Pwerau ymyrryd*

**26 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu cyflawni gan awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod y swyddogaethau sy'n ymwneud â'r seiliau dros ymyrryd i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir ganddynt.

(3) Os yw cyfarwyddyd wedi ei wneud o dan is-adran (2), rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag arweiniad Gweinidogion Cymru neu eu henwebai mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau.